



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glan Morfa

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Glan Morfa yn gymuned hapus a chartrefol lle mae disgyblion a staff yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, ac yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg wrth gychwyn yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth yn gyflym, a thros amser yn dod yn siaradwyr hyderus ac aeddfed. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd i fwynhau agweddau o ddiwylliant cyfoes Cymreig, gydag aelodau o gynghorau'r ysgol yn eu cefnogi'n llwyddiannus. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol yn ystod eu gwersi ac amseroedd anffurfiol. Maent yn rhyngweithio'n aeddfed, gan ofalu am ei gilydd yn ofalgar.

Mae'r athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac yn hyrwyddo eu lles yn effeithiol. Mae disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cefnogaeth addas sy'n caniatáu iddynt wneud cynnydd cadarn dros amser. Mae'r staff yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog, gyda'r disgyblion yn cyfrannu eu syniadau'n fwriadus i'r gweithgareddau dysgu.

Mae arweinwyr a staff yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu egwyddorion perthnasol gyda disgyblion. Mae athrawon yn amrywio dulliau addysgu yn effeithiol i ddatblygu hyder ac annibyniaeth disgyblion. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn herio a chefnogi disgyblion i wneud cynnydd hynod gadarn. Er hyn, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

Mae diwylliant cryf o gydweithio a rhannu arbenigedd yn yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach, sy'n cael ei chefnogi gan aelodau'r corff llywodraethol, arweinwyr, athrawon a chymorthyddion. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae arweinwyr yn anelu at welliant parhaus ac yn dyrannu cyllid yn ofalus er mwyn datblygu'r ddarpariaeth a diwallu anghenion disgyblion.

Argymhellion

- A1 Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion wneud cynnydd mewn gweithgareddau dysgu annibynnol
- A2 Lledaenu'r arferion addysgu cryfaf ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Glan Morfa
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	255
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	195
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	26
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	18.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	9.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	15.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2008
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	03/02/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	02/10/2023

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.